

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 8ed o Hydref 2016.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iwan Lloyd Williams, Justin Davies – Penygroes; Dafydd Thomas – Nebo; Harry Wyn Owen, D Martin Williams – Talysarn; Hefina MW Roberts, Gwyndaf Roberts - Llanllyfni / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones – Talysarn; Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Nerys Williams – Penygroes; Ffion Jones- Nantlle. Roedd y Cyngor yn cydymdeimlo efo Nerys am ei phroffedigaeth o gollu ei mam.
- 2. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Justin yn datgan diddordeb are item 7 cynllunio – Muriau, Heol y Dwr, Penygroes.
- 3. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Hydref.** Angen cywiro eitem 7 – Ty Mawr East, ac nid Ty Mawr West.
- 4. Llythyr gan Mark Balaam.** Llythyr o ymddiswyddiad gan Mark. Gofynwyd I'r Clerc gofnodi fod llawer iawn o ddisgwyliadau I Gynghorwyr Cymuned y dyddiau yma, a bod y sefyllfa bresennol yn un dyrys ac anodd cael hyd I aelodau I wirfoddoli. Mae disgwyl i'r Cynghorau Cymuned dderbyn mwy o gyfrifoldebau a thalu mwy allan. Mae hon yn fater sydd yn rhaid ei chydnabod ac yn sialens I Gynghorau Cymuned. Mae sialensau a chyfrifoldebua yn cynyddu a chynghorwyr yn ymddiswyddo oherwydd pwysau ychwanegol.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Llyn Cwm Dulyn – Dwr Cymru wedi gosod giat fochyn yn fynedfa; Chwistrellu Mynwent St Rhedyw – wedi ail-wneud, caniatad talu gweddill y bil ar ol gwneud archwiliad o'r safle; Kiosks BT – cais wedi ei wneud I gadw tri blwch ffon (drwy Cyngor Gwynedd); Lon Parc, Nasareth – dim ymateb o Gyngor Gwynedd – ail-yrru'r ebost I'r swyddog yng Nghyngor Gwynedd; Y Quarry Llanllyfni – Hefina yn adrodd I'r Cyngor fod PCSO Julie Holland wedi bod yn cadw llygad. Gwasanaeth tan wedi ategu fod yr adeilad ddim yn saff. Ysgrifennu at Cyngor Gwynedd I ofyn wrthynt gysylltu efo'r perchnogion. Copi I Dyfed Edwards a Julie Holland.
- 6. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Cynhaliwyd cyfarfod cydweithio yn ystod y mis, gyda Dafydd Meurig, Bethesda yn adrodd I'r cyd-bwyllgor am brosiect yn eu ardal nhw. Gwyndaf yn adrodd yn ol, gan ddweud fod grwp tebyg iawn I Antur Nantlle wedi ei sefydlu yno I weithio ar gynllun yn ei gyfanrwydd gydag arian busnes ADWY yn talu cyflogau ac yn y blaen, ac un swyddog yn gweithio ar y cynllun I gyd. Dywedodd fod amserlen o flwyddyn wedi ei roi I'r cyd-bwyllgor I edrych I fewn I syniadau; Cynhaliwyd is-bwyllgor mynwentydd yn ystod y mis a thrafodwyd prosiect mynwentydd, contractau torri gwair a chydweithio, clustnodi a blaenoriaethu llwyrbrau. Cynhaliwyd cyfarfod cyd-bwyllgor yn ystod y mis, a thrafodwyd egwyddor cynllun parcio Dinas Dinlle, egwyddor cyd-gordio contractau torri gwair.
- 7. Cynllunio** C/16/1276/22/YM Bryn Deulyn, Nantlle – addasu adeilad allanol yn uned gwyliau – cyngor cyn cyflwyno cais – dim gwrthwynebiad; C16/128/22/CR Muriau, Heol y Dwr, Penygroes – newidiadau I adeilad - caniatu; C16/1349/22/LL Ty Mawr, Nantlle – cosi sied amaethyddol (cais diwygiedig I'r hyn a wrthodwyd) – dim gwrthwynebiad.
- 8. Gohebiaeth. Ymatebion** Coeden ger Afon Llyfni, Talysarn – Cyngor Gwynedd yn cadarnhau nad yw'r goeden hon ar dir Cyngor Gwynedd ac felly nid yn gyfrifoldeb arnhyn nhw I'w thorri; Torri gwair Nebo/Nasareth – darllenwyd yr ymateb; Cerrig ar palmant Nasareth – Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddant yn archwilio'r safle; Meinciau Nasareth – y meinciau sydd yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ar y rhaglen gwaith I gael eu paentio; Gordyfiant Tai Nantlle – y safle yn derbyn sylw; Ffordd Tyn Parc – dim twll erbyn hyn; Llwybr Maes Dulyn; Mainc Ffordd yr Orsaf, Talysarn – y Cyngor Cymuned yn cefnogi symud y faic o Talysarn os fydd Cynghorwyr Llanllyfni yn fodlon ei ail-lleoli yn Llanllyfni. Byddai wedyn yn dod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned. Cynghorwyr Llanllyfni I edrych ar y safle, ac adrodd yn ol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor; Cwrs NAMM – trafod yng nghyfarfod is-bwyllgor mynwentydd wythnos nesaf a gwneud penderyniad; Cyffordd Hen Lon – Cyngor Gwynedd yn ail edrych ar y sefyllfa ac ail brisio cyn adrodd yn ol; Postyn Gloddfa Glai – wedi ei drwsio; Ffens Ysgol Dyffryn Nantlle – y Cyngor yn anhapus gyda'r ymateb a dderbyniwyd gan yr ysgol – gyrru copi o'r ebost I Iwan.
*Lloches bws Penygroes – graffiti. Dim bwriad gan y Cyngor Cymuned I lanhau'r graffiti. Bydd rhaid trio agor trafod gyda'r ieuencid yn y pentref unwaith eto os bydd y malurio a fandaleiddio yn parhau.
*Cyfrif nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd – ddim yn ymwybodol o unrhyw un yn cysgu ar y stryd yn yr ardal yma.

*Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri – asesiad manau agored. Er gwybodaeth.

*Clerks and Councils Direct. Ar y bwrdd.

*Un Llais – Adroddiad blynyddol; cyfleoedd hyfforddiant; penodi is-gadeirydd ac aelodau annibynnol I GIG Cymru; Heneiddio'n Dda – holiadur; Arolwg o'r Safonau Cenedlaethol ar Gyfer y Cynghorau Iechyd Cymuned; Bwletin Newyddion U Llais; Deud Eich Deud – Heddlu; Cyfarfod gyda Swyddfa Archwilio Cymru; Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru; Cylchlythyr EMRTS Cymru; Digwyddiad Community Engagement Network; Ymgynghoriad comisiwn seilwaith cenedlaethol Cymru; Crynodeb o Gynhadledd Flynyddol Un Llais. Dim sylwadau I'w adrodd yn ol.

*Materion sydd wedi eu codi gan Craig ab Iago. Bolardiau St Rhedyw – Craig yn gwneud ymholiadau.

9. * **Materion Pentrefi.** Penygroes Cysylltu efo'r trydanwr i ofyn wrtho droi'r goleuadau Nadolig ymlaen cyn y 26/11 mewn amser i'r y Ffair Nadolig. Talysram Pont bren am Tanrallt angen ei thrwsio yn iawn ar fyrder cyn iddi ddirywio gormod. Angen planciau iawn arni; Penygroes – materion Trem yr Wyddfa yn parhau heb dderbyn sylw. Biniau brown gwastraff gardd – Cynghorydd Penygroes yn datgan fod codi ffi am wagio y bin brown yn ehrydus. Pryder ble fydd y gwastraff sydd ddim yn cael ei gasglu am fynd, a fydd yr effaith yn golygu cynydd yn y dreth tirlenwi? Pam ddim cynyddu'r praesept presennol? Fydd costau I'r Cyngor ddim yn lleihau gan fod raid i'r lori ddod allan i gasglu prun bynnag. Beth fydd yn atal pobl rhag lluchio'r gwastraff gwyrdd neu ei daflu yn y bin gwyrdd? Pwy sydd berchen y biniau brown? Copi o'r llythyr I Iwan cyn ei yrru I Gyngor Gwynedd; Pamffled baw cwn – wedi ei gymeradwyo.

10. **Llwybrau a Mynwentydd.** Lladd chwyn St Rhedyw – cadarnhawyd fod yr ymgymerwr wedi ail-chwistrellu. Rhoddwyd caniatad talu'r anfoneb unwaith bydd cadarnhad fod y chwyn wedi marw ; NAMM – manylion cwrs – trafod yn y ris-bwyllgor; Trafod dynodi llwybrau yng nghyfarfod is-bwyllgor ; Llythyr am garreg fedd wedi ei throi ym mynwent MacPelah – darllenwyd y llythyr. Pob cydymdeimlad gyda'r teulu. Yn anffodus, nid oedd y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiad yn y fynwent. Fodd bynnag, byddwn yn cysylltu gyda thorrwyr gwair y mynwentydd fod cyfrifoldeb i fod yn wyladwrus wrth gerrig beddi, a chysylltu gyda'r Cyngor Cymuned i'n hysbysu o unrhyw ddigwyddiad. Gofynwyd i'r Clerc ymateb i'r llythyr i gydymdeimlo, a derbyn y gyfrifoldeb o gysylltu efo'r torrwr gwair.

11. **Materion yn ymweud a'r heddlu.** Dim.

12. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngrwyd Clerc £25- derbyn; Derbynebaw Clerc £47.36 - derbyn; Atkin Groundworks£408 - derbyn.

13. **Ceisiadau am arian.** Clwb y Caban; Dawns I Bawb; Eisteddfod Llangollen, Pwyllgor Ffair Nadolig Penygroes – trafod Chwefror.

14. ***Taenlen i'w chymeradwyo a Ffurflen Fonitro Cyllid.** Cymeradwywyd y daenlen ac adolygwyd y ffurflen fonitro cyllid. BDO Hysbysiad Archwiliad/gohebiaeth ychwanegol – fe hysbyswyd y Cyngor o'r materion a godwyd. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r HSBC unwaith eto i wneud cais i ail-agor cyfrif Cofeb Baladeulyn (dormant). Roedd nifer fawr o drafferthion wedi bod dros yr haf gyda diffyg yng ngohebiaeth yr Archwilwyr Allannol. Roedd manylion ebost yn anghywir, a chyfeiriad anghywir ar ohebiaeth post. Ni gyrhaeddodd yr Adroddiad Flynyddol yn ei hol, er I'r Archwilwyr ddatgan eu bod wedi ei phostio, ac felly bydd yn rhaid gofyn I'r Archwiliwr Mewnol ei ail-ardystio, a'r Cadeirydd a'r Clerc ei ail-ardystio. Y Cadeirydd yn hapus ail-lofnodi'r ffurflen wedi I John Roberts (Archwilydd Mewnol) lofnodi. Caniatwyd I'r Clerc drefnu cyfarfod a'r Cadeirydd I lofnodi'r ffurflen yn ystod y mis. Cymeradwywyd y newidiadau a derbyniwyd yr argymhellion a oedd yn cyd-fynd a'r datganiad flynyddol.